# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 15 Mawrth 2017
# i'w hateb ar 22 Mawrth 2017

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**
**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

1. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru): Pa asesiad y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i wneud o golli diwrnodau ysgol gan ferched na fedrant fforddio costau deunydd hylendid benywaidd? OAQ(5)0111(EDU)**W**

2. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd): Pa asesiad y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i wneud o rôl goruchwylwyr llanw mewn ysgolion uwchradd? OAQ(5)0105(EDU)

3. Eluned Morgan (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet gadarnhau na fydd y bwriad i gau Coleg Harlech yn arwain at golli argaeledd unrhyw gyrsiau ar gyfer dysgwyr sy'n oedolion? OAQ(5)0098(EDU)

4. Lee Waters (Llanelli): Pa drafodaethau y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'u cael ag Estyn ynghylch y cylch nesaf o arolygiadau? OAQ(5)0093(EDU)

5. David Rees (Aberafan): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi manylion cyfnod nesaf rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif? OAQ(5)0110(EDU)

6. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am gynllun Cylch Ti a Fi y Mudiad Meithrin? OAQ(5)0097(EDU)

7. Mark Reckless (Dwyrain De Cymru): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am y £21.1 miliwn a drosglwyddwyd o Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru i Lywodraeth Cymru? OAQ(5)0109(EDU)

8. Russell George (Sir Drefaldwyn): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ddarparu'r fframwaith cymhwysedd digidol gan ysgolion cynradd yn y canolbarth? OAQ(5)0103(EDU)

9. Steffan Lewis (Dwyrain De Cymru): Sut y mae Llywodraeth Cymru yn codi ymwybyddiaeth o faterion iechyd meddwl mewn ysgolion a cholegau? OAQ(5)0100(EDU) **TYNNWYD YN ÔL**

10. Paul Davies (Preseli Sir Benfro): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella addysg yn Sir Benfro? OAQ(5)0099(EDU)

11. Dawn Bowden (Merthyr Tudful a Rhymni): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ddarpariaeth cymorth dysgu arbenigol mewn ysgolion yng Nghymru? OAQ(5)0101(EDU)

12. Rhianon Passmore (Islwyn): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet amlinellu pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella addysg gychwynnol i athrawon? OAQ(5)0108(EDU)

13. Hefin David (Caerffili): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am rannu addysgu rhwng ysgolion arloesi ac ysgolion nad ydynt yn ysgolion arloesi o ran cyflwyno'r cwricwlwm newydd? OAQ(5)0112(EDU)

14. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am gymorth i blant byddar mewn ysgolion? OAQ(5)0106(EDU)

15. Mark Isherwood (Gogledd Cymru): Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi dysgwyr byddar yng Nghymru? OAQ(5)0094(EDU)

## Gofyn i'r Cwnsler Cyffredinol

1. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd): Pa asesiad y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i wneud o bwerau deddfwriaethol Llywodraeth Cymru o ran hela â chŵn? OAQ(5)0031(CG)

2. Vikki Howells (Cwm Cynon): Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael â swyddogion eraill y gyfraith ynghylch cosbau troseddol am droseddau'n ymwneud ag ymddygiad gwrth-gymdeithasol? OAQ(5)0029(CG)

3. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru): Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cynnal gyda swyddogion y gyfraith ynghylch dyfarniad gan Lys Cyfiawnder Ewrop ynglŷn â gorsaf bŵer Aberddawan? OAQ(5)0032(CG)**W**

4. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru): Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cynnal gyda swyddogion eraill y gyfraith parthed hawliau dinasyddion Ewrop yng Nghymru? OAQ(5)0033(CG)**W**

**5.** Mike Hedges (Dwyrain Abertawe): Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cynnal ynghylch annibyniaeth y system farnwrol yng Nghymru? OAQ(5)0030(CG)